

Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion Cyfarfod Misol y Cyngor a gynhaliwyd ar y 7fed o Fawrth, 2024.

1.	Presennol:	John Jones (Cadeirydd), Richard Parry (Bryncir), Huw Pritchard; Raymond Jones (Pentrefelin), Megan Lloyd Williams, John Till (Golan), Enid Egginton, Clifford Williams (Garndolbenmaen), Richard Williams(Prenteg);
2.	Ymddiheuriadau:	Cynghorydd June Jones a'r Cynghorydd Stephen Churchman (Cyngor Gwynedd), Gwilym Evans (Prenteg), Michael Jones (Garndolbenmaen), Sarah Jones (Pentrefelin), Edward Evans (Bryncir), Jess Williams (Penmorfa)
3.	Ddim yn bresennol:	Gwenno Emlyn Huws a Iddon Edwards (Penmorfa)
4.	Datgan Buddiant:	Neb
5.	Cywirdeb y cyn-gofnodion :	HP yn cynnig a CW yn eilio.
6.	Materion yn codi o'r cyn-gofnodion:	<u>Arwyddion 20 mya heibio Tre'r Ddol, Pentrefelin</u> - Adroddodd y clerc ei bod wedi cysylltu gydag Adran Draffig, Cyngor Gwynedd a chafodd ymateb yn dweud nad oedd llawer y gallent wneud am osodiad yr arwyddion am eu bod wedi'u gwneud gyda Gorchymyn Traffig. Dywedodd Andrew Gregson, Uwch Beiriannydd Traffig y byddai'n gofyn i beirianwyr ymgynghorol am eu barn ar y mater. Clerc i ddilyn y mater yma i fyny.
7.	Mynwentydd:	Dim i'w adrodd. Mynwentydd Golan, Pentrefelin a Prenteg yn daclus.
8.	Llwybrau Cyhoeddus:	Adroddwyd fod yr arwyddion newydd ar gyfer Pont Faen, Bron y Foel a Chapel Bryn Melyn byth wedi eu gosod. Clerc i ddilyn y mater fyny.
9.	Adroddiad Pentrefi:	<u>Bryncir:</u> <ul style="list-style-type: none">- Lloches Bws: Adroddwyd fod gwrych Station Cottage yn amharu ar welededd o'r lloches a bod pobl yn gorfod camu i'r ffordd fawr brysur i gadw llygaid allan am y bws. Clerc i gysylltu hefo perchnogion Station Cottage i weld a fyddent yn fodlon i ni drefnu cael rhywun draw i dorri rhywfaint ar y gwrych.- Cyffordd Glandwyfach: Adroddwyd fod y gyffordd wedi cael ei ail arwynebu ac nad oedd unrhyw arwyddion ychwanegol wedi cael eu peintio ar y ffordd.

- **Dŵr ar y ffordd:** Adroddwyd fod dŵr yn dod drosodd i'r lôn ger croesffordd bont y felin. Clerc i adrodd.
- **Arwydd Olew ar y ffordd:** Parhau i fod ar y ffordd ger Rhwngddwryd. Clerc i adrodd.

Golan/Cwmystradllyn a Chwm Pennant:

- Llyn mawr o ddŵr yn cronni ar draws y ffordd ger y fynedfa i Lys Gwilym.
- Erydiad drwg iawn ar yr ochr chwith i'r ffordd wrth fynd i fyny i'r cwm ger y fynedfa i fferm Braich y Big.
- Amryw o dyllau drwg mewn sawl rhan rhwng y gyffordd i'r cwm a phendraw'r ffordd ger Tyddyn Mawr.
- Mae'r ffordd sydd yn arwain o Dyddyn Mawr at y maes parcio ger Llyn Cwmystradllyn angen sylw. Mae yna dwll mawr ar yr ochr dde ac un arall cyn cyrraedd y maes parcio. Mae yna fân gerrig ar y ffordd sydd angen ei ysgubo - mae'n creu peryg i feicwyr.
- Gordyfiant ar ochr y ffordd ger Pont Llan, Cwm Pennant angen ei dorri.

Clerc i adrodd am y materion uchod i Gyngor Gwynedd / Dŵr Cymru.

Pentrefelin

- Nant heibio Tŷ'n Llech - dŵr ddim yn rhedeg yn iawn o dan y ffordd, angen peipen fwy. Mae'r mater yn effeithio tua 6 o dai yn y pentref. Clerc i gysylltu gyda'r Adran Briffyrdd.
- Adroddwyd fod y ffordd rhwng yr Hen Bost a Ger y Nant mewn cyflwr gwael ofnadwy. Does neb i weld yn gwybod pwy sydd berchen y ffordd. Clerc i wneud ymholiadau.
- Ffordd gefn o Bentrefelin i Benmorfa angen sylw brys. Clerc i gysylltu gyda'r Adran Briffyrdd.
- Pont y Wern - adroddwyd nad yw'r arwydd ffordd ar gau ger Pont y Wern yn glir iawn. Soniwyd RW ei fod wedi gweld car yn gwrthdroi i'r ffordd fawr ddiwrnod o'r blaen ar ôl gweld yr arwydd. Angen arwyddion cliriach yn nodi pa ran o'r ffordd sydd wedi cau. Clerc i gysylltu gyda'r Adran Briffyrdd.

		<p><u>Garndolbenmaen</u></p> <p>Adroddwyd fod yna eifr yn dianc o Fryn Moel ac yn mynd fewn i erddi cyfagos.</p> <p><u>Penmorfa</u></p> <p>Dim i'w adrodd</p> <p><u>Prenteg</u></p> <p>Dim i'w adrodd</p>
10.	Cyfnod Salwch Cynghorydd	Pawb yn hapus i'r cynghorydd o dan sylw gymryd amser i ffwrdd ac i ymddiheuro am gyfnod wrth wella ac yn cryfhau. Dymuniadau gorau i'r cynghorydd.
11.	Cyflog Clerc - Cynyddu Hicyn	MLW yn cynnig ac RW yn eilio bod y cyflog y clerc yn mynd i fyny hicyn, o bwynt 7 i bwynt 8. Newid yn weithredol o'r 6ed o Ebrill 2024.
12.	Cynllun Heddlu Ysgolion	Soniwyd fod y Cynllun Heddlu ysgolion yn darparu deilliannau addysgiadol pwysig iawn. Roedd siomedigaeth lwyr ym mhenderfyniad Llywodraeth Cymru i roi gorau i ariannu'r cynllun. Clerc i gysylltu gyda'r Aelod Cynulliad a Seneddol lleol a hefyd gofyn i gynghorau cymuned eraill am eu cefnogaeth.
13.	Gohebiaeth:	Dim
14.	Gohebiaeth Ychwanegol:	<ul style="list-style-type: none"> a) Sian Parri - Ardal o Arwyddocâd Ieithyddol (Clerc i gysylltu i ofyn am fwy o wybodaeth) b) Unllais Cymru - Cyfarfod Cyhoeddus Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (Rhannwyd) c) Llais Cymru - Adolygiad Gwasanaeth Cam 3 - Ambiwllans Awyr Cymru (dyddiad wedi pasio) ch) Unllais Cymru - Bwletin Newyddion d) E-byst diolch am y rhoddion ariannol (Canolfan Gymdeithasol Golan, Urdd Eryri, Theatr Bara Caws, Ambiwllans Awyr Cymru, CFFI Dyffryn Madog, Cylch Meithrin y Gorlan Fach, Eisteddfod Garndolbenmaen, Neuadd Penmorfa, Cyfeillion Ysgol y Gorlan) dd) Clwb Moduro Harlech a'r Cylch - Rali Goffa Merfyn Hughes (Rhannwyd) e) Cyngor Cymuned Pistyll - Hyfforddiant (Dyddiadau hyfforddiant wedi pasio ond y Cyngor yn cefnogi'r angen am hyfforddiant drwy'r Gymraeg)
15.	Cynllunio:	Rhestrau: 29/1,5/2,12/2,19/2,26/2

		<p>Ceisiadau Cynllunio:</p> <p>Rhif Cais: C24/0108/36/DT Lleoliad: Cae Meini, Garndolbenmaen, Gwynedd, LL51 9TQ Bwriad: Gosod offer trin carthion newydd. (Dim gwrthwynebiad)</p> <p>Rhif Cais: NP2/16/389E Lleoliad: Beudy Parc, Golan, LL51 9AQ Bwriad: Adeiladu estyniad cefn unllawr i'r edrychiad cefn (Dim gwrthwynebiad)</p> <p>Rhif Cais: NP2/16/T402C Lleoliad: Minffordd House, Garndolbenmaen. LL51 9TX Bwriad: Ail-doi arfaethedig (Dim gwrthwynebiad)</p>																		
16.	Materion Ariannol:	<p>Ceisiadau am arian:</p> <p>Pwyllgor apêl Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru Sir Caernarfon. (Wedi anfon ffurflen gais er mwyn iddynt gael eu cysidro flwyddyn nesaf)</p> <p>Monitro'r gyllideb : Dim Gorwariant</p> <p>Biliau i'w talu</p> <table data-bbox="539 1211 1374 1496"> <tr> <td>Cyflog Clerc</td> <td>= £306.49</td> </tr> <tr> <td>Ffôn</td> <td>= £ 15.00</td> </tr> <tr> <td>Cyfrifiadur</td> <td>= £ 20.00</td> </tr> <tr> <td>HMRC</td> <td>= £76.62</td> </tr> <tr> <td>Veolia</td> <td>= £74.63</td> </tr> <tr> <td>Yr Wylan</td> <td>= £40.00</td> </tr> <tr> <td>Cyngor Gwynedd</td> <td>= £642.00 (Anfoneb Gwasanaeth Etholiadau) - Trafodwyd yr anfoneb yma ac mae'r cyngor yn parhau i wrthod ei dalu yn llawn. Clerc i gysylltu unwaith gyda'r Uned Etholiadau unwaith yn rhagor i ofyn am ostyngiad.</td> </tr> </table> <p><u>Ychwanegwyd</u></p> <table data-bbox="539 1783 1070 1821"> <tr> <td>Ffenestri Dwyfor Cyf</td> <td>= £135.00</td> </tr> </table> <p>Derbyniadau:</p> <table data-bbox="539 1946 1315 2018"> <tr> <td>Cyngor Gwynedd</td> <td>= £886.00 (Cynnal a Chadw Llwybrau)</td> </tr> </table>	Cyflog Clerc	= £306.49	Ffôn	= £ 15.00	Cyfrifiadur	= £ 20.00	HMRC	= £76.62	Veolia	= £74.63	Yr Wylan	= £40.00	Cyngor Gwynedd	= £642.00 (Anfoneb Gwasanaeth Etholiadau) - Trafodwyd yr anfoneb yma ac mae'r cyngor yn parhau i wrthod ei dalu yn llawn. Clerc i gysylltu unwaith gyda'r Uned Etholiadau unwaith yn rhagor i ofyn am ostyngiad.	Ffenestri Dwyfor Cyf	= £135.00	Cyngor Gwynedd	= £886.00 (Cynnal a Chadw Llwybrau)
Cyflog Clerc	= £306.49																			
Ffôn	= £ 15.00																			
Cyfrifiadur	= £ 20.00																			
HMRC	= £76.62																			
Veolia	= £74.63																			
Yr Wylan	= £40.00																			
Cyngor Gwynedd	= £642.00 (Anfoneb Gwasanaeth Etholiadau) - Trafodwyd yr anfoneb yma ac mae'r cyngor yn parhau i wrthod ei dalu yn llawn. Clerc i gysylltu unwaith gyda'r Uned Etholiadau unwaith yn rhagor i ofyn am ostyngiad.																			
Ffenestri Dwyfor Cyf	= £135.00																			
Cyngor Gwynedd	= £886.00 (Cynnal a Chadw Llwybrau)																			

		Pritchard & Griffiths = £220.00 Henry Jones Cyf = £220.00 <u>Ychwanegwyd</u> Llog HSBC = £174.39 Balansau Cyfrifon Banc: Cyfredol: £1,299.96 Cadw: £33,304.37
17.	Gohebiaeth i'r wefan / wasg	<ul style="list-style-type: none"> - Anfoneb Etholiad - Cynllun Heddlu Ysgolion - Arwydd 20mya Pentrefelin